

## **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a Cymwysterau Cymru Awst 2017**

### **1. Sefydliadau a Therminoleg**

- 1.1 Mae Cymwysterau Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 fel rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gymwysterau gyffredinol yng Nghymru. Rheolir Cymwysterau Cymru gan Fwrdd o aelodau sydd wedi'u penodi'n gyhoeddus. Mae ei Fwrdd yn cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn erbyn ei nodau statudol yn uniongyrchol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff ei gyllid ei ddarparu a'i fonitro gan yr is-adran noddi berthnasol o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'n rhoi cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar gais.
- 1.2 Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Y prif feysydd gwaith yw rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, rheoleiddio hyfforddiant gofal cymdeithasol, helpu i wella gwasanaethau a datblygu'r gweithlu a chydgyssylltu ymchwil i'r sector. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rheolir Gofal Cymdeithasol Cymru gan Fwrdd o aelodau sydd wedi'u penodi'n gyhoeddus y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau lleig. Mae ei Gadeirydd a'i Brif Swyddog Gweithredol yn atebol i'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd, a chaiff ei berfformiad ei fonitro gan yr is-adran noddi berthnasol o fewn Llywodraeth Cymru.
- 1.3 Drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, cyfeirir at Gofal Cymdeithasol Cymru a Cymwysterau Cymru gyda'i gilydd fel 'ni' a defnyddir y term 'ein' yn unol â hynny.
- 1.4 Nodir ein cylchoedd gwaith statudol yn Atodiad 1.

### **2. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

- 2.1 Swyddogaeth y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw sicrhau bod Cymwysterau Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn mabwysiadu ymagwedd gyffredin tuag at brosiectau cydweithredol a'u bod yn bartneriaid cyfartal wrth ystyried sut i sicrhau bod ein rolau a'n gweithgareddau yn cael yr effaith fwyaf posibl.
- 2.2 Mae'n nodi'r gwerthoedd a fydd yn sail i'n cyd-feysydd gwaith ac yn ein helpu i gyflawni ein huchelgais i sicrhau'r canlynol:
  - a. bod dysgwyr yn cael profiad dysgu da sy'n rhoi iddynt y wybodaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i weithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar
  - b. bod dysgwyr yn cael y wybodaeth ac yn ennill y sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol a gofal plant a'u bod yn gymwys i wneud hynny

- c. bod gan gyflogwyr hyder yn y fframwaith cymwysterau ac ansawdd cymwysterau
- d. bod cymwysterau yn rhoi sicrwydd bod unigolion yn gymwys i roi gofal o ansawdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- e. bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau wrth nodi pwy sy'n gyfrifol am beth a pheidio â dyblygu gwaith ei gilydd
- f. bod dinasyddion yng Nghymru yn gallu cael gofal a chymorth o ansawdd mewn amrywiaeth o leoliadau

### **3. Sut y byddwn yn cydweithio i gyflawni amcanion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

- 3.1 Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfrwymol yn gyfreithiol er mai ein bwriad yw cydymffurfio â thelerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o'r dyddiad dechrau. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lunio yn unol â'r gwerthoedd a nodir yn Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru<sup>1</sup> a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru<sup>2</sup>.
- 3.2 Mae pob parti yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes mewn ffyrdd sy'n gyson â'r dealltwriaethau a nodir yn y ddogfen hon.
- 3.3 Er mwyn cyflawni'r uchelgais a nodir yn ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, byddwn yn cadw'r canlynol mewn cof:
  - pwysigrwydd cyd-bwysio anghenion byrdymor a hirdymor
  - y cysylltiadau rhwng ein hamcanion sefydliadol a'r ffyrdd y gallai ein gweithredoedd effeithio ar y parti arall
  - gwerth cydweithredu a'r angen i weithredu ar y cyd i atal problemau rhag codi neu waethygu
  - pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb yn ein helpu i gyflawni ein cydamcanion
  - pwysigrwydd sicrhau ein bod yn ymrwymo i'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd
  - yr arbedion effeithlonrwydd posibl y gellid eu sicrhau drwy fabwysiadu ffyrdd arloesol o weithio

<sup>1</sup> [Gwerthoedd Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru](#) – Academi Wales, dim dyddiad

<sup>2</sup> [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#), Llywodraeth Cymru, Ionawr 2016

### 3.4 Byddwn yn ceisio creu cydberthnasau gwaith da drwy wneud y canlynol:

- cydnabod a meithrin dealltwriaeth o gyfrifoldebau, strwythurau atebolrwydd a fframweithiau deddfwriaethol ein gilydd;
- drwy drafodaeth, anelu at esbonio a deall y rhesymau dros unrhyw wahaniaeth barn;
- pennu'r swyddog arweiniol ar gyfer pob prosiect yn gynnar, nodi strwythur y tîm yn ystod y camau cyntaf a'r cydbwysedd sgiliau sydd ei angen er mwyn datblygu'r gwaith;
- cytuno ar y cyd ar y ffordd y caiff gwaith ar y cyd ei rannu â rhanddeiliaid a phryd er mwyn cynnal y cydbwysedd o ran arweinyddiaeth, hyder y cyhoedd yn ein henwau da fel rheoleiddwyr ac ymgysylltiad ystyrllon â'n rhanddeiliaid;
- ymddwyn yn unol â gwerthoedd ein priod sefydliadau<sup>3</sup> yn ystod unrhyw ryngweithio â'n gilydd.
- bod yn ymwybodol o gyfleoedd i gyd-drefnu gweithgareddau, a chydabod lle y gallai fod yn fuddiol gwneud hynny;
- hysbysu ein gilydd mewn ffordd amserol a phriodol pan all cyhoeddiadau a datblygiadau pwysig gan y naill barti effeithio ar feysydd allweddol o waith y parti arall;
- cynnal cyfarfodydd rheolaidd, rhai strategol a gweithredol, er mwyn hysbysu ein gilydd cyn gynted ag y bo modd ynghylch datblygiadau perthnasol a, lle y bo modd, cyn rhyddhau unrhyw adroddiadau, datganiadau i'r wasg, areithiau neu bolisiau perthnasol;
- rhannu gwybodaeth am raglenni gwaith a allai fod o ddiddordeb i'r parti arall cyn i'r gwaith hwnnw ddechrau, lle y bo modd;
- sicrhau, wrth gynnal digwyddiadau a allai fod o ddiddordeb i'r parti arall, y caiff y parti arall ei wahodd i'w mynychu ac ar yr amod y bydd pob parti yn talu ei gostau ei hun mewn perthynas â mynychu neu gynnal y digwyddiad;
- sicrhau y cytunir ar delerau cyffredin ac y cânt eu defnyddio yn ystod unrhyw brosiect er mwyn rheoli disgwyliadau ar y naill ochr a'r llall.

## 4. Llywodraethu

---

<sup>3</sup> Gwerthoedd Gofal Cymdeithasol Cymru: Parchu pawb, Ymagwedd broffesiynol, Bob amser yn dysgu, Cynnwys pobl

- 4.1 Ni fydd cyfrifoldebau am gyflawni'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn torri ar draws gofynion statudol y sefydliadau (a nodir yn Atodiad 1). Byddwn yn cydweithio yn unol â'r egwyddorion yn adran 3 i gyflawni diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn fel y nodir yn adran 2.
- 4.2 Er mwyn bodloni gofynion gwaith y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, byddwn yn cytuno ar rolau a chyfrifoldebau ar ddechrau unrhyw brosiectau. Er enghraifft, sefydlu grŵp llywio prosiect o fewn trefniadau llywodraethu'r ddau sefydliad i oruchwylio'r gwaith. Byddai cylch gwaith grŵp llywio'r prosiect yn ystyried awdurdod dirprwyedig, stiwardiaeth a threfniadau adrodd y ddau sefydliad a'r grŵp hwn a fyddai'n gyfrifol am reoli risg mewn perthynas â'r prosiect penodol, gan uwchgyfeirio risgiau sylweddol i lefel sefydliadol yn ôl yr angen.
- 4.3 Ystyrir y trefniadau cyfathrebu sy'n ymwneud â chyd-feysydd gwaith yng nghydestun atebolrwydd i wahanol Weinidogion Cynulliad Cymru, Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac is-adrannau noddi sy'n monitro er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau. Cyn gynted â phosibl, bydd pob parti yn uwchgyfeirio unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig fel y nodir yn 4.6.
- 4.4 Bydd pob sefydliad yn parhau i fod yn gyfrifol am ei rwymedigaethau ei hun sy'n deillio o'i weithredoedd ei hun.
- 4.5 Fel rhan o'n hymgyrch i sicrhau gwelliant parhaus, byddwn yn sicrhau ansawdd y gwaith a gwmpesir gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac unrhyw gydgylluniau gwaith dilynol ac yn eu gwerthuso. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn ystyried ein perfformiad, yn dysgu gwersi lle y bo'n briodol ac yn eu defnyddio i lywio ein gwaith yn y dyfodol.
- 4.6 Rheolir y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn y lle cyntaf gan Gyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Ymchwil Cymwysterau Cymru a Chyfarwyddwr Gwella a Datblygu Gofal Cymdeithasol Cymru. Caiff unrhyw faterion sydd angen eu huwchgyfeirio, gan gynnwys pryderon ynghylch y bartneriaeth neu risgiau sy'n gysylltiedig â'r bartneriaeth, eu dwyn i sylw'r Cyfarwyddwyr yn y lle cyntaf a'u huwchgyfeirio fel y bo'n briodol. Os na ellir datrys y materion cânt eu huwchgyfeirio at Brif Swyddogion Gweithredol y ddau barti.

## **5. Gwybodaeth, cyfnewid data a chwynion**

- 5.1 Lle y bo'n briodol, byddwn yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ar y cyd neu ochr yn ochr â'i gilydd mewn perthynas â meysydd gwaith a gwmpesir gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.
- 5.2 Wrth ymateb i ymgynghoriadau sy'n ymwneud â materion sydd wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, byddwn yn rhannu ymatebion drafft cynnar er mwyn cefnogi'r dull gweithio mewn partneriaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

- 5.3 Lle y bo'n briodol, byddwn yn defnyddio ein rhwydweithiau a'n grwpiau rhanddeiliaid presennol i gyfathrebu â phartneriaid ac ymgynghori â hwy ynghylch ein cyd-feysydd gwaith.
- 5.4 Byddwn yn cyfnewid yr holl ddata sy'n ymwneud â'r gwaith a gwmpesir gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a byddwn yn gwneud hynny yn unol â'n priod safonau cyfnewid data a safonau cytûn Llywodraeth Cymru.
- 5.5 Os cyflwynir cais i'r naill sefydliad neu'r llall o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i ddatgelu unrhyw wybodaeth sy'n eiddo i'r sefydliad arall, bydd yn hysbysu'r parti arall ac yn ymgynghori ag ef. Bydd y parti arall yn ymateb mewn da bryd i ganiatáu i'r sefydliad y cyflwynir y cais iddo ymateb mewn modd ac o fewn terfynau amser sy'n cydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- 5.6 Pan fydd y naill barti neu'r llall yn cael cwyn swyddogol ynghylch materion gofal cymdeithasol neu ofal plant sy'n ymwneud â chymwysterau neu'r ffordd y darperir hyfforddiant a bod gorgyffwrdd canfyddedig yn y cylch gorchwyl, byddwn yn cysylltu â'r parti arall ac unrhyw barti/partion perthnasol eraill er mwyn trafod a dod i gytundeb ynghylch pwy sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin â'r gŵyn.
- 5.7 Lle y bo'n briodol, byddwn yn cyhoeddi negeseuon am ein llwyddiannau cydweithredol o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar y cyd a byddwn yn gwneud hynny mewn fformat y cytunwyd arno gan ddefnyddio geiriad y cytunwyd arno.
- 5.8 Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth i'n gilydd, byddwn yn nodi'n glir pwy sy'n berchen ar yr hawlfraint ac a yw'n cael ei haseinio neu ei thrwyddedu i'r parti arall ei defnyddio. Pan fydd Cymwysterau Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhoi gwybodaeth i'w gilydd, maent yn cydnabod y bydd y naill yn gallu defnyddio'r wybodaeth y mae'r llall wedi'i rhoi iddo (i'w defnyddio mewn perthynas â chymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, neu a gaiff eu cymeradwyo, i'w defnyddio yng Nghymru) yn rhydd o unrhyw rwystrau. Os oes gan y parti sy'n rhoi'r wybodaeth unrhyw amheuaeth ynghylch a ellir ei defnyddio fel hyn mae'n rhaid iddo ddweud hynny ymlaen llaw.

## **6. Cydraddoldebau a goblygiadau ieithyddol**

- 6.1 Byddwn yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas ag unrhyw raglenni gwaith cydweithredol.
- 6.2 Byddwn yn sicrhau y caiff ein gwaith partneriaeth ei gyflawni yn unol â gofynion statudol Mesur y Gymraeg 2011 a strategaethau iaith sy'n ymwneud yn benodol â'r sector, megis Mwy na Geiriau<sup>4</sup>.

## **7. Rheoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

---

<sup>4</sup> Mwy na Geiriau, Y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru 2013

- 7.1 Byddwn yn adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu newidiadau perthnasol yn y dirwedd ddeddfwriaethol, gwleidyddol a sefydliadol, yn ogystal â newidiadau perthnasol yn ein polisiau, ein trefniadau gweithredol neu ein harferion. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol sy'n cynrychioli pob parti yn cynnal yr adolygiad hwn. Gall eitemau i'w trafod gynnwys iechyd y gydberthynas waith, sut y dylem gydweithio yn y dyfodol a pha weithgareddau gwaith y mae'r naill barti yn bwriadu eu gwneud a allai fod o ddiddordeb i'r llall.
- 7.2 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru a Cymwysterau Cymru ill dau yn rhoi copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar eu priod wefannau, gydag unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif wedi'i dileu.
- 7.3 Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn dechrau ar y dyddiad y'i llofnodir gan y ddau barti.
- 7.4 Caiff y naill barti neu'r llall derfynu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn drwy roi o leiaf dri mis o rybudd yn ysgrifenedig i'r parti arall ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, dylid ystyried canfyddiadau ynghylch gweithred o'r fath, yng ngoleuni cwrmpas y gwaith ac atebolrwydd i'r priod Weinidogion.
- 7.5 Byddwn yn cytuno ar gynllun gwaith blynyddol a fydd yn nodi sut y caiff unrhyw waith cydweithredol ei ddatblygu a'i gyflawni.
- 7.6 Mewn perthynas â phob darn o waith, byddwn yn cytuno ar unrhyw oblygiadau o ran adnoddau ariannol neu ddynol ar gam datblygu'r prosiect.

..... Dyddiad .....

Sue Evans  
Prif Swyddog Gweithredol  
**Gofal Cymdeithasol Cymru**

..... Dyddiad .....

Philip Blaker  
Prif Swyddog Gweithredol  
**Cymwysterau Cymru**

## ATODIAD 1

### Cylchoedd gwaith statudol

#### Cymwysterau Cymru

Mewn perthynas â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, prif nodau Cymwysterau Cymru yw:

- sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau gyffredinol yng Nghymru, yn llwyddo'n effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
- ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a system gymwysterau Cymru

Wrth ystyried yr hyn sy'n briodol at ddiben cyflawni ei brif nodau, y materion y bydd Cymwysterau Cymru yn rhoi sylw iddynt yw:

- a) dymunoldeb hyrwyddo twf cynaliadwy yn economi Cymru;
- b) dymunoldeb hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy argaeledd trefniadau asesu sy'n darparu ar gyfer asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac argaeledd cymwysterau sydd fel arall yn hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg;
- c) ystod a natur y cymwysterau sydd ar gael ac ystod a natur eu trefniadau asesu;
- d) gofynion rhesymol cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'r proffesiynau o ran addysg a hyfforddiant (gan gynnwys o ran safonau gofynnol cymhwysedd ymarferol);
- e) pa un a yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae'n ofynnol eu dangos at ddiben penderfynu a yw cymhwyster i gael ei ddyfarnu i berson yn adlewyrchu'r wybodaeth gyfredol a'r arferion gorau cyfredol;
- f) pa un a yw cymwysterau yn dangos lefel o gyrhaeddiad sy'n gyson â'r hyn a ddangosir gan beth bynnag y mae Cymwysterau Cymru yn ei ystyried yn gymwysterau cyffelyb, pa un a'u dyfernir yn Ewrop neu rywle arall;
- g) pa un a ddarperir cymwysterau yn effeithlon ac er mwyn sicrhau gwerth am arian;
- h) priod rolau a chyfrifoldebau pob un o'r personau a ganlyn mewn cysylltiad â system gymwysterau Cymru

Y gweithgareddau a ddefnyddir gan Cymwysterau Cymru i gyflawni'r prif nodau hyn yw:

- i) Cydnabod, Cymeradwyo a Dynodi - Rydym yn cydnabod cyrff dyfarnu sy'n bodloni meini prawf penodol ac rydym yn Cymeradwyo ac yn Dynodi'r cymwysterau y maent yn dymuno iddynt fod yn gymwys i gael cyllid ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed yng Nghymru, yn erbyn meini prawf penodol.
- j) Monitro a Chydymffurfio - Rydym yn rheoleiddio cyrff dyfarnu er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal y safonau gofynnol ac yn darparu cymwysterau'n effeithiol, ac rydym yn adolygu cymwysterau sydd eisoes ar gael er mwyn asesu eu haddasrwydd at y diben.
- k) Datblygu a Chomisiynu - Lle bo angen, rydym yn goruchwyllo'r gwaith o lunio gofynion ar gyfer cymwysterau newydd, ac rydym yn comisiynu cyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd i Gymru.
- l) Ymchwil - Rydym yn ymchwilio i'r system gymwysterau ac i feysydd penodol o ddiddordeb a pherthnasedd fel y gallwn wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

## **Gofal Cymdeithasol Cymru**

Nodir gofynion statudol Gofal Cymdeithasol Cymru yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mewn perthynas â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru y gofynion statudol canlynol:

**Adran 113: Datblygiad proffesiynol parhaus:** Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru wneud rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau sydd wedi eu cofrestru mewn unrhyw ran o'r gofrestr gyflawni hyfforddiant pellach.

**Adran 114: Cymeradwyo cyrsiau etc.:** Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru, yn unol â Rheolau a wneir ganddo:

- a) cymeradwyo cyrsiau mewn gwaith cymdeithasol perthnasol ar gyfer personau sydd wedi eu cofrestru neu sy'n dymuno cofrestru yn y rhan gweithwyr cymdeithasol o'r gofrestr;
- b) cymeradwyo cyrsiau yn y gwaith a gaiff ei ymarfer gan bersonau sydd wedi eu cofrestru mewn rhan ychwanegol o'r gofrestr ar gyfer personau sydd wedi eu cofrestru neu sy'n dymuno cofrestru yn y rhan honno o'r gofrestr;
- c) cymeradwyo cyrsiau yn y gwaith a gaiff ei ymarfer gan bersonau sy'n weithwyr gofal cymdeithasol neu sy'n dymuno bod yn weithwyr gofal cymdeithasol o ddisgrifiad nad yw wedi ei bennu yn adran 80(1) neu odani.

Gall Gofal Cymdeithasol Cymru bennu amodau priodol mewn perthynas â chymeradwyo cyrsiau a gall fod yn ddarostyngedig i amodau o'r fath fel yr ystyria Gofal Cymdeithasol Cymru yn briodol.

Gall y Rheolau sy'n helpu Gofal Cymdeithasol Cymru i gymeradwyo cyrsiau nodi'r canlynol:



- a) cynnwys cyrsiau a'r dulliau ar gyfer cwblhau cyrsiau;
- b) y ddarpariaeth o wybodaeth am gyrsiau i Gofal Cymdeithasol Cymru;
- c) personau a gaiff ymgymryd â chyrsiau, neu rannau o gyrsiau a bennir yn y rheolau;
- d) niferoedd y personau a gaiff ymgymryd â chyrsiau;
- e) y broses a ddilynir gan Gofal Cymdeithasol Cymru wrth ddyfarnu tystysgrifau o gwblhau cyrsiau yn llwyddiannus;
- f) darfodiad ac adnewyddiad cymeradwyaethau;
- g) tynnu cymeradwyaethau yn ôl.

Mae'n rhaid i Gofal Cymdeithasol Cymru gynnal a chyhoeddi rhestr o'r cyrsiau y mae wedi'u cymeradwyo.

**Adran 115: Arolygiadau mewn cysylltiad â chyrsiau penodol:** Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru wneud darpariaeth, drwy Reolau, ar gyfer arolygu mannau lle y gwneir y canlynol neu ar gyfer arolygu sefydliadau y gwneir y canlynol ganddynt neu o dan eu cyfarwyddyd—

- (a) y rhoddir, neu y bwriedir rhoi, unrhyw gwrs perthnasol (neu ran o gwrs o'r fath), neu
- (b) y cynhelir unrhyw archwiliad, neu y bwriedir cynnal unrhyw archwiliad, mewn cysylltiad ag unrhyw gwrs perthnasol

**116 Swyddogaethau eraill Gofal Cymdeithasol Cymru mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant:** Os ymddengys i Gofal Cymdeithasol Cymru nad oes darpariaeth ddigonol yn cael ei gwneud ar gyfer hyfforddi personau sy'n weithwyr gofal cymdeithasol neu sy'n dymuno bod yn weithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad, caiff Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu cyrsiau at y diben hwnnw neu sicrhau bod cyrsiau o'r fath yn cael eu darparu.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Gofal Cymdeithasol Cymru wneud y canlynol, ar unrhyw delerau ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau sy'n briodol yn ei farn ef:

- a) gwneud grantiau, a thalu lwfansau teithio a lwfansau eraill, i bersonau sy'n preswyllo yng Nghymru er mwyn sicrhau eu hyfforddiant yng ngwaith gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad; gwneud grantiau i sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant yng ngwaith gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad.